

# Cyngor Cymuned Bodedern



Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd  
yng Nghanolfan Bro'r Ysgol, Bodedern,

Nos Lun, 23 Gorffennaf 2018

am 7 yr hwyr.

## 1. Croeso ac ymddiheuriadau.

### Presennol:

Mrs Bethan Hughes **BH**, Ms Cari Jones **CJ**, Mr Victor Owen **VO**, Miss JARoberts **JAR** (yn y gadair),  
Mrs EAB Thomas **EABT**, Ms Rhian Owen **clerc**.

**Ymddiheuriadau:** Mr Aled Ifan, Mrs Linda Jones, Mr Adrian Jones, Dr Edward Jones, Mr OG Roberts,  
Cynghorwr Llinos Medi Huws.

## 2. Datgan Diddordeb: Dim.

## 3. Cofnodion Mehefin 2018 ac unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion.

Nodwyd fod pawb wedi derbyn copiau o'r cofnodion. **EABT** yn cynnig eu bod yn gywir. **VO** yn eilio.

- 3.1 Nododd y clerc ei bod wedi cysylltu a CSYM i dorri'r gwair oedd yn cuddio'r arwydd ar y lon gefn i mewn i'r pentref o Wyddfor a chodi'r arwydd. Nodwyd fod y gwair wedi ei dorri ond fod yr arwydd wedi ei ddifa yn y broses gan ei fod mor isel. Y clerc i gysylltu a CSYM i'w hysbysu o'r difrod.
- 3.2 Y clerc yn ceisio cael ateb pandant gan BT os oes hawl i symud neu gwerthu y ciosg ffon coch. Mae'r ciosg wedi ei fabwysiadu gan y cyngor cymuned, ond angen cadarnhad o'r hawliau sy'n dod gyda hyn.
- 3.3 Nodwyd fod gwirfoddolwr wedi cynnig symud y bin yn y maes chwarae ar ddiwrnod priodol. Y clerc i ddiolch am ei gwasnaeth.
- 3.4 Y clerc wedi cysylltu gyda'r contractwyr trin giat y fynwent eto. Maent wedi gaddo ymgymryd a'r gwaith yn yr wythnosau nesaf.
- 3.5 Ymhellach o gwaith torri gwair gan CSYM ogwmpas y pentref, nodwyd fod rhai trigolion y pentref yn pryderu fod gerddi rhai tai cyngor wedi gor dyfu, ac fod eu cymdogion yn pryderu am y perygl tân gan fod y tywydd mor eithriadol o sych. Nid oedd yn glir os CSYM neu'r preswylwyr oedd yn gyfrifol o dorri'r gwair. Y clerc i wneud ymholiad cyffredinnol gyda CSYM.

## 4. Ffrindiau Bodedern

Nododd **CJ** fod sesiynau rhieni a plant, diwrnod hwyl a gweithgareddau haf yn cael eu trefnu, ond bod rhaid trefnu ysiwriant cyhoeddus yn gyntaf gan nad oedd polisi y cyngor cymuned yn ddigonol.

# Cyngor Cymuned Bodedern



## 5. Materion Cynllunio.

### 5.1 13C183G/RUR

Cais llawn ar gyfer codi annedd amaethyddol yn *Bodlas, Bodedern*.

Dim gwrthwynebiad.

### 5.2 13C199

Cais llawn ar gyfer addasu ac enhangu ynghyd a chodi modurdu yn *Bryn Aeddfed, Bodedern*. (Disgrifiad diwygiedig a chynlllyn ychwanegol)

Dim gwrthwynebiad.

## 6. Gohebiaeth

6.1 Derbyniwyd llythur gan Cyngor ar Bopeth yn hysbysu'r newidiadau i Gredyd Cynhwysol. Y clerch i arddangos y poster ar yr hysbysfwrdd. Nodwyd fod rhaid gwneud cais am hawl newydd neu hysbysiad o newid ar lein, ac byddai hyn yn creu anfantaes mawr i rhai pobol.

## 7. Taliadau i'w gwneud.

Mr Alun Foulkes	Archwiliad Mewnol 17-18	£75.00	Rhif siec 200055
Mon Grass cutting	MGC2744	£120.00	Rhif siec 200054
Cyflog Clerc & HMRC	Ebr/Mai/Meh	£480 & £120	Rhif Siec 200052/53

## 8. Unrhyw fater arall.

Dim.

## 9. Dyddiad cyfarfod nesaf: 24 Medi 2018